OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2007 No. 2933

# Rheoliadau Asesu'r Effeithiau Amgylcheddol (Amaethyddiaeth) (Cymru) 2007

## RHAN 2

Sgrinio

### Trothwyon

**5.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn darparu ar gyfer dyfarnu a yw maint prosiect ailstrwythuro yn hafal i'r trothwy sy'n gymwys neu'n uwch na hynny.

(2) Mae'r trothwy ar gyfer y math o brosiect ailstrwythuro a bennir yng ngholofn 1 o Atodlen 1 wedi'i nodi yng ngholofn 2 neu 3.

(3) Mae paragraffau (4) a (5) yn gymwys pan fo prosiect ailstrwythuro yn cynnwys dim ond un o'r mathau o brosiect ailstrwythuro a bennir yng ngholofn 1.

(4) Pan fo prosiect ailstrwythuro i'w gyflawni'n gyfan gwbl y tu allan i ardal sensitif, y trothwy a bennir yng ngholofn 2 yw'r trothwy sy'n gymwys i'r prosiect hwnnw.

(5) Pan fo prosiect ailstrwythuro i'w gyflawni, neu pan fo unrhyw ran ohono i'w chyflawni, mewn ardal sensitif, y trothwy a bennir ar gyfer y math hwnnw o brosiect ailstrwythuro yng ngholofn 3 yw'r trothwy sy'n gymwys iddo.

(6) Pan fo prosiect ailstrwythuro wedi'i ffurfio o fwy nag un o'r mathau o brosiect ailstrwythuro a bennir yng ngholofn 1—

(a) rhaid i bob rhan berthnasol o'r prosiect ailstrwythuro gael ei asesu er mwyn dyfarnu'r trothwy sy'n gymwys i'r rhan honno, a

(b) os yw unrhyw ran berthnasol o'r prosiect ailstrwythuro yn hafal i'r trothwy sy'n gymwys i'r rhan honno neu'n uwch nag ef, yna mae'r prosiect ailstrwythuro cyfan i'w drin fel un y mae ei faint yn hafal i'r trothwy sy'n gymwys iddo neu'n uwch na'r trothwy hwnnw.

(7) Yn y rheoliad hwn, ystyr "ardal sensitif" ("*sensitive area*") yw—

(a) tir yr hysbyswyd o dan adrannau 3(1) neu 5(1) o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981(**1**) fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000(**2**) ei fod yn safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig.

(b) eiddo sy'n ymddangos ar Restr Treftadaeth y Byd a gedwir o dan erthygl 11(2) o Gonfensiwn 1972 UNESCO er diogelu Treftadaeth Ddiwylliannol a Naturiol y Byd(**3**)

(c) safle Ewropeaidd o fewn ystyr "European site" yn rheoliad 10 o Reoliadau Cadwraeth (Cynefinoedd Naturiol, etc.) 1994(**4**).

(**1**) 1981 p.69.
(**2**) 2000 p.37.
(**3**) *Gweler* Papur Gorchymyn 9424.
(**4**) O.S.1994/2716.

(ch) ardal o harddwch naturiol eithriadol a ddynodwyd fel y cyfryw drwy Orchymyn a wnaed gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru(**5**) o dan adran 82 o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000(**6**) (dynodi ardaloedd o harddwch naturiol eithriadol) ac a gadarnhawyd yn briodol gan Weinidogion Cymru o dan adran 83(3) o'r Ddeddf honno;

(d) Parc Cenedlaethol o fewn ystyr "National Park" yn Neddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949(**7**); neu

(dd) heneb gofrestredig o fewn ystyr "scheduled monument" yn Neddf Henebion ac Ardaloedd Archeolegol 1979(**8**).

(**5**) Gweler adran 128 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 (p.43).
(**6**) 2000 p. 37. Ymdrinnir â gorchmynion sy'n dynodi ardaloedd o harddwch naturiol eithriadol a wnaed cyn i adran 82 o Ddeddf 2000 ddod i rym fel petaent wedi'u gwneud o dan adran 82 yn rhinwedd paragraff 16 o Atodlen 15 i'r Ddeddf honno.
(**7**) 1949 p. 97. Cafodd diwygiadau perthnasol eu gwneud gan Ddeddf yr Amgylchedd 1995 (p. 25), Atodlen 10, paragraff 2.
(**8**) 1979 p. 46. Gweler y diffiniad yn adran 1(11).